

## ENRaW Domestig

### Grant Cyfalaf a Refeniw Cyfunol Mawr – Prosiectau Blwyddyn wedi'u Cwblhau

Partner Arweiniol	Enw'r Prosiect	Crynodeb o'r Prosiect	Cyfanswm y Cyllid a ddyfarnwyd gan Lywodraeth Cymru
Cyngor Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot	Cysylltu Seilwaith Gwyrdd – De-orllewin	Gwaith cychwynnol i sefydlu dull partneriaeth newydd a chydweithredol i gynllunio a darparu seilwaith gwyrdd ledled Castell-nedd Port Talbot, Abertawe a Sir Gaerfyrddin, er budd cymunedau lleol a'u hamgylchedd naturiol.	£456,220.98
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	Tir Afon – Prosiect Cyfoeth Naturiol a Lles Conwy Uchaf	Prosiect partneriaeth tirwedd mawr sy'n gweithio tuag at ddalgylch iachach, glanach sydd o fudd i bobl a natur. Mae'r prosiect hwn am gynnal gweithgaredd sefydlu cychwynnol i wella darpariaeth atgyfeirio ymarfer fel y gall meddygon teulu ragnodi ymarfer awyr agored fel ymyrraeth ar gyfer atal a mynd i'r afael â phroblemau iechyd corfforol a meddyliol yn ogystal â gordewdra ymysg plant.	£138,408.51
Cadwch Gymru'n Daclus	Caru Cymru	Mae'r prosiect yn cyflawni gweithgarwch datblygu'r flwyddyn gyntaf tuag at ddull cydweithredol, cyfannol o fynd i'r afael â materion Ansawdd Amgylcheddol Lleol ledled Cymru drwy bartneriaeth rhwng Cadwch Gymru'n Daclus, y 22 Awdurdod Lleol a Phrifysgol Caerdydd. Bydd yn cael pobl Cymru i ddatblygu atebion arloesol a gweithredu ar faterion â blaenoriaeth sy'n wirioneddol bwysig i gymunedau, gan wella'r amgylchedd i bobl a bywyd gwylt fel ei gilydd.	£1,827,875.53
Cyngor Sir Fynwy	Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent	Bydd Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent yn cyfrannu at ddatblygu fframwaith polisi trosfwaol a phartneriaeth o sefydliadau allweddol, yn seiliedig ar: Astudiaeth Coridorau Gwyrdd Strategol Gwent, Eco-Astudiaeth i-Tree Gwent, Prosiect Ystyriol o Bryfed Peillio Gwent ac yn cael ei ddarparu drwy gynnig prosiectau Seilwaith Gwyrdd Gwent gyda phrosiectau ymarferol ar lawr gwlad.	£218,147.83

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru	Prosiect Adfer yn Naturiol Afon Dyfi	Nod y prosiect hwn yw datblygu dull cyn cyflwyno ar raddfa fawr sy'n helpu i wella ansawdd dŵr, lleihau'r perygl o lifogydd, adfer bioamrywiaeth, dal a storio mwy o garbon, hybu incwm yn sgil ymwelwyr a gwella iechyd a lles pobl leol yn ardal Dalgylch Dyfi drwy ailgyflwyno'r afanc Ewrasiaidd dan reolaeth yn y dyfodol.	£155,953.00
Agor Drenewydd	Lle mae'r Hafren yn Gwenu: Dull Tref Gyfan	Mae'r prosiect yn cyflawni camau cyntaf cyfle unigryw i ddangos sut y gall partneriaethau wedi'u trefnu'n dda ddarparu cynnydd clir sylweddol i fioamrywiaeth gan sicrhau manteision lles eang iawn ar yr un pryd.	£284,430.80
<b>Cyfanswm (6)</b>			<b>£3,081,036.65</b>